## 11 Ceffyl Rhyfel

Stori rymus am geffyl a'i gyfaill yn cael eu gwahanu a'u dal yng nghanol erchylltra'r Rhyfel Byd Cyntaf yw hon. Mae'r awdur, Michael Morpurgo, yn feistr ar y grefft o adrodd stori afaelgar. Addasiad Cymraeg o *War Horse*.

£6.00 cm




## 12 Hanes Atgas: Y Tuduriaid Trafferthus a'r Stiwartiaid Syrffedus

Cei gyfle i ddarllen am arferion gwaedlyd ac eithafol cyfnod y Tuduriaid a'r Stiwartiaid yn y gyfrol gyffrous hon, gyda darluniau difyr ar bob tudalen. Mae'n storfa o wybodaeth!

£5.99 cm




## 13 Llosgi

Mae Wncwl Nigel yn benderfynol o gael lliw haul, ond mae Tim yn credu bod rhywbeth sinistr yn digwydd pan mae croen ei ewythr yn llosgi a'i ymennydd yn ffrio. Peth peryglus yw swyngyfaredd – efallai y daw eich dymuniad yn wir.

£3.99 cm




## 14 Cyfres y Dderwen: Siarad

Mae'r nofel hon yn adrodd hanes teulu sydd wedi mynd i fyw eu bywydau trwy gyfrwng y sgrin – sgrin deledu a sgrin y cyfrifiadur – yn hytrach nag yn y byd go iawn, gan arwain at ddiweddglo dirdynnol.

£5.95 cm




## 15 Llinyn Trôns

Nofel gyfoes a difyr am wrthdaro a chyfeillgarwch, methiannau a llwyddiannau criw o fyfyrwyr TGAU. Ymunwch â Llion Jones, neu 'Llinyn Trôns', wrth iddo adrodd yr hanes!

£4.95 cm




## FFURFLEN ARCHEBU

Archeba'n Fuan! Noda dy ddewis gyda ✔. Torra'r ffurflen hon allan a'i rhoi, gyda'r arian cywir, i'r athro/athrawes.

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Cyfres Bling: Dw i Eisiau Bod yn Enwog | £3.99 ☐ |
| 2 | Y Jaguar Glas Tywyll | £6.00 ☐ |
| 3 | Dawnsio Gwirion a'r Duw Rhyw | £6.99 ☐ |
| 4 | Cyfres Anturiaethau Tintin: Cawl Erfyn Efflwfia | £6.99 ☐ |
| 5 | Academi Iwan: Arwain y Tîm | £4.00 ☐ |
| 6 | Bachgen yn y Môr | £5.99 ☐ |
| 7 | Dyddiadur Dripsyn | £6.99 ☐ |
| 8 | Yr Alarch Du | £5.95 ☐ |
| 9 | Cyfres Bwrlwm: Trychinebau Naturiol | £6.99 ☐ |
| 10 | Cyfres Clwb Rôl Ysgol: Mae Jes Nôl | £5.99 ☐ |
| 11 | Ceffyl Rhyfel | £6.00 ☐ |
| 12 | Hanes Atgas: Y Tuduriaid Trafferthus a'r Stiwartiaid Syrffedus | £5.99 ☐ |
| 13 | Llosgi | £3.99 ☐ |
| 14 | Siarad | £5.95 ☐ |
| 15 | Llinyn Trôns | £4.95 ☐ |

Cyfanswm *Total*

Enw *Name*

Dosbarth *Class*

I'r athro/athrawes: Cadwch y ffurflen hon yn ddiogel. Dyma'ch cofnod chi o'r archeb.


50 Cyngor Llyfrau Cymru Welsh Books Council

gwales.com LLYFRAU AR-LEIN

Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government




# Y Clwb Llyfrau

Uwchradd

Gwanwyn 2012

## 1 Cyfres Bling: Dw i Eisiau Bod yn Enwog

Wyddost ti beth oedd enw albwm cyntaf Duffy? Oeddet ti'n gwybod mai dim ond un llun werthodd Van Gogh yn ystod ei oes? Cei gyfle i ddarganfod mwy o ffeithiau difyr a diddorol wrth ddarllen y gyfrol hon!

£3.99 cm




## 2 Y Jaguar Glas Tywyll

Mae Gethin Evans, 15 oed, yn dipyn o dditectif. Gyda help Caryl, mae'n rhoi ei sgiliau newydd ar waith. Ymuna yn yr antur i ddatrys llofruddiaeth merch yn y nofel dditectif gyffrous hon.

£6.00 cm




## 3 Dawnsio Gwirion a'r Duw Rhyw

Dyddiadur haf Sadie Wyn Jones. Llyfr sylweddol yn llawn hiwmor bachog, ond mae yma hefyd ddagrau a difrifoldeb wrth i briodas ei rhieni chwalu.

£6.99 cm




## 4 Cyfres Anturiaethau Tintin: Cawl Erfyn Efflwfia

Mae bywyd yr Athro Ephraim R Efflwfia mewn perygl wrth iddo gael ei herwgipio, a daw Tintin a Chapten Hadog i geisio achub eu cyfaill yn y stori stribed hon.

£6.99 cm




## 5 Academi Iwan: Arwain y Tîm

Mae'n tynnu at ddiwedd blwyddyn gyntaf Rodi yn Academi Iwan ac mae gobaith i'w dîm ennill y cwpan. Dim ond dwy gêm sydd ar ôl ac mae aelodau'r tîm yn poeni. Dydi Geno ddim yn sgorio ac mae'r tîm ar chwâl!

Bargen · Bargen £4.99 £4.00 cm




## 6 Bachgen yn y Môr

Mae Jamal yn dwlu ar bêl-droed a'i freuddwyd fawr yw cael arwain Awstralia i fuddugoliaeth yng nghystadleuaeth Cwpan y Byd. A fydd Jamal a'i deulu'n llwyddo i ddianc o Afghanistan a chyrraedd Awstralia?

£5.99 cm




## 7 Dyddiadur Dripsyn

Yn ei ysgol newydd mae Greg Heffley yn sylweddoli bod bechgyn lliprynnaidd yn gorfod rhannu coridor â phlant mawr, cas sydd eisoes wedi dechrau siafio! Dyma gyfle i chi ddarllen am anturiaethau'r Wimpy Kid am y tro cyntaf drwy gyfrwng y Gymraeg. Addasiad o *Diary of a Wimpy Kid.*

£6.99 cm




## 8 Cyfres y Dderwen: Yr Alarch Du

Nofel am dad alcoholig, ei fab, a merch o stad Sgubor Goch, Caernarfon. Cawn bortread byw o'r dref a'i chymeriadau trwy lygaid y tri.

£5.95 cm




## 9 Cyfres Bwrlwm: Trychinebau Naturiol

Llyfr yn llawn ffeithiau diddorol am drychinebau naturiol, gan gynnwys tywydd eithafol, daeargrynfeydd a llosgfynyddoedd!

£6.99 cm




## 10 Cyfres Clwb Rôl Ysgol: Mae Jes Nôl

Mae Jes yn hogan cŵl ac mae popeth ganddi, ond er hyn dydi bywyd ddim yn hawdd. Mae cymhlethdod cariad cyntaf yn ddryslyd iddi, heb sôn am hanes y dieithryn sy'n difetha pob dim.

£5.99 cm

